

laith fyw: iaith byw


Strategaeth y Gymraeg 2012–17

Cynllun Gweithredu 2012–13



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



laith fyw: iaith byw

Strategaeth y Gymraeg 2012–17

Cynllun Gweithredu 2012–13

- Cynulleidfa** Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau y sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysgol yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; a phartïon eraill â diddordeb.
- Trosolwg** **Deddf Llywodraeth Cymru 2006:** Dyma gynllun gweithredu Gweinidogion Cymru ar gyfer 2012–13, sy'n esbonio sut y byddant yn gweithredu'r cynigion a amlinellir yn eu strategaeth ar gyfer y Gymraeg, *laith fyw: iaith byw*, yn ystod y flwyddyn honno. Fe'i paratowyd yn unol ag Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
- Oes:** Mae hwn yn gynllun gweithredu ar gyfer cyfnod o flwyddyn, o 1 Ebrill 2012 hyd 31 Mawrth 2013.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:
Uned y Gymraeg
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1307
e-bost: Strategaethlaith@cymru.gsi.gov.uk
- Copiâu ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ygymraeg
- Dogfennau cysylltiedig** *Rhaglen Lywodraethu 2011–16* (Llywodraeth Cymru, 2011); *laith fyw: iaith byw* (Llywodraeth Cymru, 2012); *Mesur y Gymraeg* (Cymru) 2011; *Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010); *Adolygiad o'r Dystiolaeth mewn perthynas â'r Strategaeth ar gyfer y Gymraeg* (Llywodraeth Cymru, 2012)

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Pwyntiau gweithredu cyffredinol	3
Maes strategol 1: Y teulu	5
Maes strategol 2: Plant a phobl ifanc	7
Maes strategol 3: Y gymuned	9
Maes strategol 4: Y gweithle	11
Maes strategol 5: Gwasanaethau Cymraeg	13
Maes strategol 6: Y seilwaith	14

Cyflwyniad

Ar 1 Mawrth 2012, cyhoeddwyd y Strategaeth newydd ar y Gymraeg, *laith fyw*: *laith byw*. Daw i rym ar 1 Ebrill 2012, a bydd yn weithredol am bum mlynedd tan 31 Mawrth 2017.

Mae Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi cynllun gweithredu blynyddol yn esbonio sut y byddant yn gweithredu'r cynigion a amlinellir yn y strategaeth yn ystod pob blwyddyn ariannol. Hwn yw'r cynllun gweithredu blynyddol cyntaf, a ddatblygwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2012–13.

Wrth i'r cynllun gweithredu hwn gael ei gyhoeddi, mae yna newidiadau strwythurol pwysig yn cael eu gwneud o ran hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae Mesur y Gymraeg yn darparu ar gyfer diddymu Bwrdd yr Iaith. Yn dilyn diddymu'r Bwrdd ar 1 Ebrill 2012, caiff swydd Comisiynydd y Gymraeg ei sefydlu, ac ar yr un pryd bydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â chyfran sylweddol o weithgareddau Bwrdd yr Iaith i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru a'r Comisiynydd ddod i ddealltwriaeth glir ynghylch sut i gydweithredu, gan ystyried annibyniaeth y Comisiynydd ar y naill law a'r angen i weithio mewn partneriaeth ar y llall.

Bydd angen mynd ati'n fuan hefyd i drefnu bod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg yn cyfarfod, cyngor newydd ei benodi, i gynghori ynghylch gweithredu'r strategaeth, y cynllun gweithredu hwn a chynlluniau gweithredu i ddod. Byddwn hefyd yn parhau â'r gwaith o sefydlu'r strwythurau newydd o dan y Mesur, gan gynnwys sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg.

Mae'r strategaeth yn cydnabod nad oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd ynghylch effaith ymyriadau polisi ar y defnydd o'r Gymraeg. Rydym, felly, am ddatblygu fframwaith gwerthuso ar gyfer y strategaeth, a fydd yn cynnwys, yn 2012–13, werthusiad o effaith prosiectau sy'n ceisio hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.

Yn olaf, byddwn yn parhau â nifer o fentrau sydd eisoes ar y gweill, gan gynnwys gweithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, trafod y blaenoriaethau wrth hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym maes technoleg a chyfryngau digidol, a pharhau i reoli nifer o brosiectau a etifeddwyd gan Fwrdd yr Iaith.

Strategaeth bum mlynedd yw hon. Ni fydd rhai elfennau, felly, yn cael eu gweithredu ar unwaith. Am y flwyddyn gyntaf, byddwn yn canolbwyntio ar y camau yn y ddogfen hon yn ogystal â'r camau y cytunwyd arnynt yn ystod cyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Gymraeg.

Pwyntiau gweithredu cyffredinol

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth a amlinellir yn y strategaeth, mae angen inni ddefnyddio gwahanol ddulliau gweithredu, yn ôl yr amgylchiadau.

Mae'r strategaeth yn nodi pwysigrwydd parhau â'r gwaith o annog pobl a sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg gan hefyd wneud defnydd llawn o'r cyfleoedd a fydd yn deillio o Fesur y Gymraeg. Bydd y Mesur hwn yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod dyletswyddau ar wahanol gyrrff drwy safonau'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r strategaeth hefyd yn ategu o'r newydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi lle canolog i'r Gymraeg ym mhob maes polisi.

Amcan y camau isod yw sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol newydd dan y Mesur a gwella sut rydym yn mynd ati i roi lle canolog i'r iaith.

Yn 2012–13, byddwn yn:

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg	
1. Rhoi cynllun gweithredu trydedd flwyddyn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ar waith.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg mewn Addysg)
Dosrannu grantiau a chomisiynu prosiectau	
2. Dosrannu grantiau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith y cyrrff a fu'n llwyddiannus yn eu ceisiadau ar gyfer 2012–13, a chyllido prosiectau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg ac Uned y Gymraeg yn y Gymuned)
3. Monitro gwaith y rheini sy'n cael grant a'r prosiectau a ariennir ar gyfer 2012–13.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg yn y Gymuned)
Sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol newydd o dan Fesur y Gymraeg 2011	
4. Sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg) a'r Uned Cyfiawnder Gweinyddol
5. Cyflawni ein rôl o ran datblygu safonau mewn perthynas â'r Gymraeg, a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar sefydliadau mewn perthynas â'r Gymraeg.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg)

Cyngor Partneriaeth y Gymraeg	
6. Cynnal cyfarfodydd cyntaf y Cyngor Partneriaeth, a datblygu rhaglen waith ar gyfer y Cyngor.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg)
Rhoi lle canolog i'r Gymraeg ar draws y Llywodraeth	
7. Sicrhau bod effaith polisiâu newydd ar y Gymraeg yn cael ei hasesu fel rhan o'r broses o lunio polisi.	Cymorth Polisi yr Is-adran Cynllunio Strategol ac Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg)
8. Parhau i roi ar waith ein Cynllun Gweithredu Corfforaethol o dan ein Cynllun Iaith Gymraeg 2011–16.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg)
9. Datblygu: <ul style="list-style-type: none"> • fframwaith, o fewn amodau Llywodraeth Cymru ynghylch cydymffurfiaeth â grant, er mwyn sefydlu manteision cymunedol mewn perthynas â'r Gymraeg, i'w ddefnyddio lle y bo'n briodol • meini prawf, o fewn amodau Llywodraeth Cymru ynghylch cydymffurfiaeth ag arferion caffael, sy'n cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg, lle bo hyn yn berthnasol i gontractau. 	Canolfan Ragoriaeth Grantiau, Gwerth Cymru ac Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg)
9. Gofalu bod cyfraniad y Gymraeg at greu twf a swyddi cynaliadwy yng Nghymru yn cael ei gydnabod yn llawn wrth ddatblygu a gweithredu rhaglenni cyllid yr UE ar gyfer 2014–20.	WEFO ac Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg)
10. Dechrau cynnig modiwl hyfforddi ar-lein i staff Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg)
11. Paratoi fframwaith gwerthuso i ddatblygu ein gallu i fesur effaith ymyriadau dan y strategaeth.	Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ac Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg)

Maes strategol 1: Y teulu

Y nod

Annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd.

Y canlyniad a ddymunir

Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel y brif iaith gyda'r plant gan o leiaf un oedolyn o'r teulu sydd mewn cyswllt agos â nhw.

Yn ôl Cyfrifiad 2001, mewn teuluoedd lle'r oedd y ddau riant/gofalwr yn siarad Cymraeg, roedd 82 y cant o blant tair i bedair oed yn gallu siarad yr iaith, ond nid yw hyn ond yn cyfrif am 5 y cant o'r grŵp oedran hwn. Mewn teuluoedd lle'r oedd un riant/gofalwr yn siarad Cymraeg, 40 y cant o'r plant hyn oedd yn gallu siarad yr iaith. Mae hyn yn creu her enfawr, ac mae'n rhaid gwrth-droi'r dirywiad o ran y Gymraeg mewn teuluoedd er mwyn sicrhau bod yr iaith yn goroesi ac yn ffynnu. O'r herwydd, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd yw un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu dyfodol y Gymraeg. Wrth fynd ati i weithio yn y maes hwn, ac yng nghyd-destun y fframwaith gwerthuso, byddwn yn ystyried yr hyn y dylid ei wneud er mwyn deall effaith ymyriadau yn well.

Yn 2012–13, byddwn yn:

12. Arwain cynllun Twf, a phrosiectau cysylltiedig, i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd, drwy reoli'r contractau a thrafod yn rheolaidd gyda'r contractwyr.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg yn y Gymuned)
13. Parhau i gynyddu nifer y cyrsiau Cymraeg i'r Teulu drwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, meithrinfeydd a grwpiau perthnasol eraill.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg mewn Addysg)
14. Datblygu negeseuon clir i hyrwyddo manteision addysg iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg, a chynllunio rhaglen weithredu mewn partneriaeth â'r prif grwpiau perthnasol i gyfleu'r negeseuon hyn i rieni.	Tîm Marchnata a Chyfathrebu AdAS Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg mewn Addysg)

<p>15. Dadansoddi'r galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg drwy Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Ar sail y dadansoddiad, datblygu opsiynau ar gyfer gofal plant llawn-amser cyfrwng Cymraeg mewn ymateb i anghenion lleol drwy gydgyssylltu ar draws adrannau'r Llywodraeth ac mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a darparwyr gofal plant.</p>	<p>Is-adran Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd ac Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg mewn Addysg) (Uned y Gymraeg yn y Gymuned)</p>
<p>16. Cyflwyno Bil Addysg a fydd yn sail statudol i'r Gymraeg mewn Cynlluniau Strategol Addysg a'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yn ôl y galw ymhlith rhieni.</p>	<p>Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg mewn Addysg)</p>

Maes strategol 2: Plant a phobl ifanc

Y nod

Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith.

Y canlyniad a ddymunir

Plant a phobl ifanc yn defnyddio mwy o'r Gymraeg.

Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd darparu cyfleoedd cymdeithasol amrywiol iawn i'r grŵp hwn ddefnyddio'r Gymraeg, er mwyn datblygu cyswllt rhwng nid yn unig yr iaith ac addysg, ond hefyd rhwng yr iaith a gweithgarwch hamdden a diwylliannol ac, yn anad dim, â phleser a difyrwch. Mae angen darparu'r gweithgareddau hyn mewn sefyllfaoedd addysgol ac yn y gymuned.

Bydd codi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc hefyd yn ystyriaeth allweddol yn ein gwaith o ddatblygu strategaeth farchnata, a'n gwaith ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym maes technoleg a chyfryngau digidol (gweler maes strategol 6).

Bydd safonau, o dan Fesur y Gymraeg, hefyd yn bwysig mewn perthynas â darparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Yn 2012–13, byddwn yn:

17. Ariannu pob math o gyrrff i ddarparu gweithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc yn y gymuned, a monitro eu gwaith.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg yn y Gymuned)
18. Cynnal adolygiad mewnol o'r gweithgareddau a gynhaliwyd hyd yn hyn fel rhan o'r Prosiect Cefnogi Arferion Iaith mewn ysgolion, er mwyn astudio'r dystiolaeth a gwerthuso ymatebion awdurdodau lleol drwy eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg mewn Addysg) (Uned y Gymraeg yn y Gymuned)
19. Cefnogi gweithgareddau mewn ysgolion i hyrwyddo'r defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn ffordd anffurfiol o fewn yr ysgol a hefyd codi pont â gweithgareddau Cymraeg y tu allan i'r ysgol (gan gynnwys gweithredu Prosiect Cefnogi Arferion Iaith mewn 10 ysgol o leiaf ledled Cymru).	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg mewn Addysg) (Uned y Gymraeg yn y Gymuned)

20. Cyhoeddi Strategaeth Genedlaethol a Chynllun Gweithredu 2012–16 ar gyfer y Gwasanaeth Ieuencid a pharhau i drefnu cyfarfodydd Grŵp Strategol y Gymraeg i fonitro cynnydd a rhoi cyngor a chyfarwyddyd o ran gweithredu polisiau yn y dyfodol.

Y Gangen Strategaeth Gwaith Ieuencid ac Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg yn y Gymuned)

Maes strategol 3: Y gymuned

Y nod

Cryfhau statws y Gymraeg o fewn y gymuned.

Y canlyniad a ddymunir

Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau ar draws Cymru.

Mae nifer y cymunedau yng Nghymru lle mae dros 70 y cant o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg wedi lleihau yn sylweddol dros y degawdau diwethaf. Mae prosesau mewnfudo ac allfudo, cyfleoedd gwaith cyfyngedig a chyflenwad cyfyngedig o dai fforddiadwy wedi cael effaith sylweddol ar broffil demograffig a phroffil ieithyddol sawl cymuned.

Rydym yn awyddus i ddatblygu'r gwaith a wnaed gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, y mentrau iaith a nifer o gyrrff eraill ar lawr gwlad gan weithredu mewn modd bwriadus mewn ardaloedd lle y caiff y Gymraeg ei siarad fel prif iaith bywyd beunyddiol, neu lle'r oedd yn brif iaith tan yn gymharol ddiweddar, a lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn lleihau'n gyflym. Mae angen inni ymateb hefyd i'r newidiadau demograffig mewn trefi a dinasoedd, lle gwelwyd cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, a manteisio ar y cyfleoedd sy'n dod yn sgil technolegau newydd, er budd cymunedau Cymraeg.

Bydd Mesur y Gymraeg yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy eang. Gallai'r rhain ategu ein gwaith yn y maes hwn.

Yn 2012–13, byddwn yn:

21. Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i lunio cynllun ar gyfer cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg yn y Gymuned)
22. Gwerthuso effaith y prosiectau sy'n ceisio hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg) a Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
23. Rhoi arian i sefydliadau o bob math i wneud gweithgareddau Cymraeg yn y gymuned.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg yn y Gymuned)
24. Ailsefydlu'r Grŵp Economi Iaith Cymraeg.	Yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

<p>25. Cwblhau'r adolygiad o bolisi cynllunio a'r cyngor technegol cysylltiedig ar y Gymraeg, er mwyn creu mwy o gysylltiad â chymunedau Cymraeg.</p>	<p>Yr Is-adran Gynllunio</p>
<p>26. Ystyried a oes modd efelychu'r gwaith sydd wedi'i wneud o fewn Ardal Adfywio Strategol Môn a Menai, mewn perthynas â'r iaith, sy'n cynnwys y fenter Brocer Iaith ym Mheblig, mewn ardaloedd eraill.</p>	<p>Yr Adran Tai, Adfywio a Threftadaeth ac Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg yn y Gymuned)</p>

Maes strategol 4: Y gweithle

Y nod

Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Y canlyniad a ddymunir

Mwy o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

Fel mae'r strategaeth yn ei nodi, y gweithle yw un o'r meysydd allweddol sy'n pennu pa iaith y mae pobl yn ei defnyddio. Fel unigolion, rydym yn treulio cyfran sylweddol o'n hamser yn y gwaith. Roedd nifer sylweddol o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y strategaeth hon yn cytuno bod gan y gweithle rôl o ran ennyn hyder ymhlith siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith mewn agweddau eraill ar eu bywydau. Nodwyd hefyd fod datblygu statws yr iaith yn y gweithle yn bwysig o safbwynt pwysleisio gwerth addysg cyfrwng Cymraeg.

Ein nod yw cynnig rhagor o gyfleoedd i'r rheini sy'n medru'r Gymraeg ei defnyddio yn y gwaith – yn eu hymwneud â'i gilydd, gyda'u cwsmeriaid a chyda'u cyflogwyr.

Yn ogystal â'r camau isod, gallai safonau a ddatblygir gan y Comisiynydd iaith fod yn gyfraniad pwysig i'r agenda hon.

Yn 2012–13, byddwn yn:

27. Paratoi cynllun gweithredu ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg)
28. Cynnal adolygiad o'r farchnad lafur i gasglu gwybodaeth ychwanegol er mwyn deall yn well yr angen ymhlith cyflogwyr am sgiliau iaith Gymraeg, a defnyddio'r wybodaeth hon wrth gynllunio a pharatoi rhaglenni yn y dyfodol.	Yr Is-adran Busnes a Sgiliau ac Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg mewn Addysg)
29. Annog cyflogwyr, drwy Raglen Datblygu'r Gweithlu, i gynnig hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i'w gweithwyr, yn ogystal â hyfforddiant iaith Gymraeg.	Yr Is-adran Busnes a Sgiliau ac Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg mewn Addysg)
30. Treialu'r ddyfais ddiagnostig ar-lein a fydd yn galluogi cyflogwyr i fesur sgiliau iaith eu staff ac annog cyflogwyr i ddefnyddio'r ddyfais wrth gynllunio eu rhaglenni hyfforddi Cymraeg yn y Gweithle, ac wrth recriwtio staff newydd.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg mewn Addysg)

<p>31. Parhau i weithredu argymhellion adroddiad Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, <i>Polisiâu Sgiliau a'r Iaith Gymraeg</i>.</p>	<p>Grŵp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes ac Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg mewn Addysg) (Uned y Gymraeg)</p>
---	--

Maes strategol 5: Gwasanaethau Cymraeg

Y nod

Cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg i'n dinasyddion.

Y canlyniad a ddymunir

Mwy o wasanaethau Cymraeg o safon uchel ar gael i'r cyhoedd a mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r gwasanaethau hynny.

Er bod ystod gwasanaethau Cymraeg wedi ehangu a gwella dros y ddau ddegawd diwethaf yn sgil Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, dengys y dystiolaeth bod yna rwystrau yn dal i fod yno sy'n atal pobl rhag gallu defnyddio gwasanaethau Cymraeg. Bydd Mesur y Gymraeg yn manteisio ar y gwaith a wnaed hyd yn hyn er mwyn sicrhau rhagor o eglurder a chysondeb ar gyfer dinasyddion o ran y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg. Bydd gan y Comisiynydd rôl allweddol wrth ddatblygu'r safonau o dan y Mesur a'u gorfodi.

Fel Llywodraeth, mae gennym rôl bwysig hefyd o ran rhoi lle canolog i'r Gymraeg wrth inni gynllunio a chreu'r cyd-destun ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Rydym wedi cynnwys pwyntiau gweithredu sy'n ymwneud â'n proses llunio polisi, dosrannu grantiau a chaffael gwasanaethau, ar ddechrau'r cynllun gweithredu hwn.

Yn 2012–13, byddwn yn:

32. Cydweithio â'r Comisiynydd i ddatblygu'r gyfres gyntaf o safonau a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar sefydliadau mewn perthynas â'r Gymraeg.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg)
33. Cyhoeddi fersiwn derfynol y fframwaith strategol er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg o fewn y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol, a gweithredu elfennau'r flwyddyn gyntaf.	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg)
34. Gofyn i'r Comisiynydd annog y sector preifat i ddefnyddio'r Gymraeg yn wirfoddol – ac annog siaradwyr Cymraeg i fanteisio ar y gwasanaethau hynny.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg)
35. Gofyn i'r Comisiynydd annog y trydydd sector i ddefnyddio'r Gymraeg yn wirfoddol – ac annog siaradwyr Cymraeg i fanteisio ar y gwasanaethau hynny.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg)

Maes strategol 6: Y seilwaith

Y nod

Cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith.

Y canlyniad a ddymunir

Bod mwy o adnoddau ar gael i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys o fewn yr amgylchedd digidol.

Mae gan yr holl wahanol ffurfiau ar y cyfryngau ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r gallu i fanteisio ar lyfrau, radio a theledu Cymraeg o safon uchel yn ogystal â deunydd ar-lein yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr iaith yn ffynnu. Mae'r strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd cynyddol technoleg a chyfryngau digidol, ac yn amlinellu ein huchelgais a'n disgwyliad y dylai siaradwyr Cymraeg allu byw eu bywydau yn electronig, pe baent am wneud hynny.

Yn 2012–13, byddwn yn:

36. Paratoi, drwy gydweithio â Grŵp y Gymraeg, Technoleg a'r Cyfryngau Digidol a Chomisiynydd y Gymraeg, gynllun gweithredu ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym maes technoleg a'r cyfryngau digidol.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg)
37. Ystyried trefniant i ariannu technoleg a mentrau cyfryngau digidol Cymraeg.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg)
38. Hybu'r defnydd o fersiynau Cymraeg o gynnyrch meddalwedd mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion.	Uned TGCh AdAS
39. Ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Llyfrau Cymru gomisiynu nifer cynyddol o ddarnau fel cyhoeddiadau ar-lein yn unig. Defnyddio rhaglen gomisiynu Llywodraeth Cymru ar gyfer adnoddau addysgol hefyd.	Yr Is-adran Diwylliant a'r Cyfryngau
40. Gofalu bod buddiannau'r Gymraeg yn cael lle yn ein hymatebion i ymgynghoriadau Llywodraeth y DU ynghylch polisi darlledu, gan gynnwys yng nghyd-destun y Bil Cyfathrebu sydd ar y gweill.	Yr Is-adran Diwylliant a'r Cyfryngau
41. Parhau i gefnogi gwaith Cyngor Llyfrau Cymru, gan gynnwys hybu e-gyhoeddi.	Yr Is-adran Diwylliant a'r Cyfryngau

42. Parhau i gefnogi gwaith y papurau bro, gan gynnwys hybu e-gyhoeddi.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg yn y Gymuned)
43. Parhau, drwy Gyngor Llyfrau Cymru, i roi cymorth ariannol i Golwg 360.	Yr Is-adran Diwylliant a'r Cyfryngau
44. Gofyn i'r Comisiynydd gefnogi a datblygu'r diwydiant cyfieithu.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg)
45. Gofyn i'r Comisiynydd gydgysylltu'r gwaith o safoni terminoleg ac enwau lleoedd Cymraeg.	Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg)
46. Gwneud ymchwil fel sail i'r gwaith o ddatblygu strategaeth farchnata gydgysylltiedig ar gyfer yr iaith.	Tîm Marchnata a Chyfathrebu AdAS